ETHNIC DIMENSION

RESEARCH & CONSULTANCY



# Disgwyliadau cynulleidfaoedd lleiafrifoedd ethnig o ran darlledu

Cyhoeddwyd 3 Tachwedd 2021

# Cynnwys

Crynodeb gweithredol ........ 2
Cefndir ........ 2

## Crynodeb gweithredol

### Cefndir

Comisiynodd Ofcom Ethnic Dimension, asiantaeth ymchwil sy'n arbenigo mewn gweithio gyda chymunedau lleiafrifoedd ethnig, i gynnal ymchwil i helpu i ddeall ymwybyddiaeth a disgwyliadau o ran safonau darlledu[1] ymhlith cynulleidfaoedd sianeli teledu a gorsafoedd radio a anelir yn benodol at gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn y DU. Daeth yr ymchwil yn sgil adroddiad a gomisiynwyd gan Ofcom ym mis Ebrill 2020[2] a ganfu fod gan rai cynulleidfaoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig ddisgwyliadau gwahanol o ran safonau darlledu ar sianeli a gorsafoedd sy'n targedu eu cymunedau nag ar gyfer gwasanaethau prif[3] ffrwd. Roedd Ofcom o'r farn felly ei bod yn bwysig deall disgwyliadau penodol y cynulleidfaoedd hyn yn well a'u hymwybyddiaeth o Ofcom a'i gylch gwaith.

Cynhaliwyd gwaith maes ymhlith cyfranogwyr o gefndiroedd Indiaidd, Bangladeshaidd, Pacistanaidd, Du Affricanaidd a'r rhai sy'n siarad Arabeg, a fu'n[4] canolbwyntio ar "safonau a dderbynnir yn gyffredinol", gan gynnwys rheolau Ofcom ar Niwed a Thramgwydd (Adran Dau y Cod[5]) a chasineb a chamdriniaeth (Adran Tri y Cod[6]). Roedd y gwaith maes yn cynnwys sesiynau fideo ar-lein, a hwyluswyd gan gymedrolwr o'r un ethnigrwydd a allai sgwrsio ym mamiaith y cyfranogwyr neu â chymorth cyfieithydd ar y pryd drwyddi draw.

### Canfyddiadau Allweddol

Canfu'r ymchwil fod sianeli a anelir at gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn chwarae rôl allweddol yn y cymunedau hyn ac yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr ganddynt. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr fod ymgysylltu â'r gwasanaethau hyn yn rhoi ymdeimlad o berthyn a chysylltiad â'u cymunedau ethnig iddynt. Ar gyfer cyfranogwyr cenhedlaeth gyntaf[7], cynnwys sy'n targedu eu cymuned ethnig oedd eu prif ddeunydd gwylio fel arfer, tra bod cyfranogwyr ail genhedlaeth yn newid eu defnydd rhwng y cynnwys hwn a chynnwys prif ffrwd; a defnyddiodd cyfranogwyr trydedd genhedlaeth gynnwys prif ffrwd yn bennaf.

I gyfranogwyr hŷn, roedd y sianeli hyn yn darparu ffordd i gymunedau gynnal eu treftadaeth ddiwylliannol ac o ran crefydd ac iaith. I lawer o gyfranogwyr iau, roedd hyn yn hwyluso amser teuluol a rennir, gan eu helpu i gysylltu â pherthnasau hŷn a mwynhau cynnwys gyda'i gilydd. Mwynhaodd cyfranogwyr iau mathau penodol o

---

[1] Cod Darlledu Ofcom

[2] Ipsos Mori: Disgwyliadau cynulleidfaoedd mewn byd digidol, Ebrill 2020: https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/tv-radio-and-on-demand/audience-expectations-in-a-digital-world

[3] Mae'r diffiniad o "brif ffrwd" fel y'i defnyddir yn yr adroddiad i'w weld yn Nhroednodyn 3 y prif adroddiad.

[4] Roedd cyfranogwyr Arabeg eu hiaith o dreftadaeth Algeraidd, Eifftaidd a Tiwnisaidd.

[5] Yn benodol Rheolau 2.1 a 2.3, gweler: https://www.ofcom.org.uk/cymru/tv-radio-and-on-demand/broadcast-codes/broadcast-code/section-two-harm-offence

[6] Yn benodol Rheolau 3.2 a 3.3, gweler: https://www.ofcom.org.uk/cymru/tv-radio-and-on-demand/broadcast-codes/broadcast-code/section-two-harm-offence

[7] Mae'r diffiniadau o gyfranogwyr "cenhedlaeth gyntaf", "ail genhedlaeth" a "trydedd genhedlaeth" fel y'u defnyddir yn yr adroddiad i'w gweld ar dudalen 5 y prif adroddiad.

gynnwys, cerddoriaeth a ffilmiau fel arfer, fel rhan o'u gwylio rheolaidd. I lawer, roedd sianeli a gorsafoedd a anelwyd at gymunedau lleiafrifoedd ethnig hefyd yn darparu cynnwys y gallai'r cymunedau hynny uniaethu ag ef, gyda chyfranogwyr yn gweld "pobl fel fi".

Roedd disgwyliadau o ran safonau darlledu yn amrywio ar gyfer sianeli a gorsafoedd a anelir at gymunedau lleiafrifoedd ethnig o gymharu â'r rhai ar gyfer gwasanaethau prif ffrwd. Roedd tuedd i fod yn llai beirniadol o sianeli a gorsafoedd a anelir at gymunedau lleiafrifoedd ethnig ond bu pryderon cyffredin ynghylch meysydd o niwed a throsedd posib. Roedd pryderon gan lawer ynghylch amddiffyn plant, ac roedd pob un yn teimlo bod gan gynnwys atgas a allai effeithio'n ddifrifol ar gydlyniant cymunedol neu grefyddol y potensial i fod yn niweidiol ac yn dramgwyddus. Cyfeiriwyd at gynnwys radio yn llawer llai na chynnwys teledu wrth drafod meysydd posib lle y gellid darlledu cynnwys tramgwyddus neu niweidiol.

Daeth nifer o feysydd allweddol sy'n peri pryder ynghylch cynnwys ar sianeli a anelwyd at gymunedau lleiafrifoedd ethnig i'r amlwg ar draws yr holl gyfranogwyr y buom yn siarad â hwy. Roedd y rhain yn cynnwys:

**Cynnwys treisgar neu graffig mewn newyddion**. Roedd y cyfranogwyr o'r farn bod rhaglenni newyddion a materion cyfoes ar rai sianelau lleiafrifoedd ethnig weithiau yn cynnwys delweddau echblyg a graffig o drais. Bu iddynt nodi bod y delweddau hyn yn aml yn cael eu hailadrodd drwy gydol y dydd heb rybuddion neu eu bod yn aml â rhybuddion annigonol yn eu barn hwy. Roedd gan gyfranogwyr bryderon am yr effaith y gallai hyn ei chael ar blant yn benodol, a allai ddod ar draws y cynnwys hwn yn anfwriadol.

**Delweddau o drais a cham-drin domestig.** Nododd bob grŵp fod gan drais mewn operâu sebon a dramâu ar y sianeli hyn y potensial i beri cynnwrf, er i lawer o gyfranogwyr deimlo eu bod wedi dod i arfer â gweld cynnwys treisgar ac ymosodol mewn rhaglenni o fewn y genres hyn. Roedd meysydd pryder penodol yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod a phlant a thrais o fewn teuluoedd estynedig, a chytunwyd bod gan y rhai y potensial i achosi achosi niwed a thramgwydd. Teimlai'r cyfranogwyr ei bod yn bwysig i ddarlledwyr a anelir at eu cymunedau ethnig roi mesurau diogelu a lliniaru ar waith i leihau niwed a thramgwydd posib gan iddynt gydnabod pwysigrwydd cynnwys llinellau stori anodd a heriol.

**Dangos cynnwys rhywiol.** Roedd rhai cyfranogwyr hefyd yn pryderu am gynnwys yr oeddent yn ei ystyried yn or-rywiol ar y sianeli hyn ac roeddent eisiau i ddarlledwyr sicrhau bod y cynnwys hwn wedi'i amserlennu'n briodol i amddiffyn plant.

**Potensial i niweidio cydlyniant cymunedol.** Dywedodd llawer o'r cyfranogwyr y gallai rhai rhaglenni trafod materion cyfoes ar y sianeli hyn gynnwys ymddygiad a oedd yn ymosodol neu i'w weld yn fwlio o ran ei natur. Canfu'r cyfranogwyr fod y cynnwys hwn yn dramgwyddus pan ddaeth yr iaith neu'r gweithredoedd cysylltiedig ar draws fel sarhad, rhagfarn neu'n rhan o'r hyn a allai gael ei ddehongli fel ymosodiad geiriol. Roedd rhai o'r farn bod potensial i'r cynnwys hwn greu tensiynau rhwng cymunedau yn y DU ac y gallai, mewn rhai achosion, annog diffyg goddefgarwch a rhwystro cyd-drafodaeth agored.

Wrth drafod sut y gallai darlledwyr liniaru niwed a thramgwydd, teimlai'r rhan fwyaf o gyfranogwyr ei bod yn bwysig i'r gwasanaethau hyn roi'r un mesurau diogelu ar waith ag a ddisgwylir gan ddarlledwyr prif ffrwd. Cyfeiriodd y cyfranogwyr at amserlennu cynnwys yn briodol i amddiffyn plant a darparu rhybuddion clir a pherthnasol, yn ogystal â chyfeirio at rwydweithiau neu sefydliadau cefnogi. Rhannodd y cyfranogwyr gred yng ngwerth diogelu rhyddid mynegiant, gan gytuno na ddylid dileu cynnwys er mwyn osgoi peri tramgwydd neu ofid i bobl. Roedd rhai cyfranogwyr yn pryderu na fyddai gan Ofcom ddealltwriaeth ddiwylliannol ddigonol o'r darlledwyr a anelir at eu cymunedau lleiafrifoedd ethnig ac roeddent yn pryderu y gallai cwynion arwain at gamau rheoleiddio annheg.

Roedd ymwybyddiaeth o Ofcom fel rheoleiddiwr darlledu'r DU yn isel yn gyffredinol ar draws pob grŵp a chenhedlaeth ac ychydig iawn o wybodaeth a fu am rôl Ofcom o reoleiddio gwasanaethau a anelir at gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Roedd gwybodaeth am Ofcom wedi'i chyfyngu i leiafrif, cyfranogwyr trydedd genhedlaeth yn bennaf, a oedd â rhywfaint o ymwybyddiaeth o ganlyniad i achosion proffil uchel diweddar[8]. Er y bu ymwybyddiaeth yn uwch ymhlith y grŵp hwn, roedd dealltwriaeth o rôl Ofcom yn gyfyngedig ac, yn bennaf, heb gael ei chyfeirio gan brofiadau go iawn gyda'r rheoleiddiwr.

Ar ôl ei esbonio, bu ymatebion cymysg tuag at Ofcom ac roedd y rhain yn amrywio ar draws cenedlaethau a chymunedau lleiafrifoedd ethnig. I ddechrau, dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr na fyddent yn debygol o gwyno i Ofcom am unrhyw gynnwys. Dywedodd rhai, fodd bynnag, fod cymryd rhan yn yr ymchwil wedi eu gwneud yn fwy tebygol o gwyno a'u bod yn teimlo ei bod yn briodol i'w cymuned gael llais.

[8] Er enghraifft, trafododd rhai cyfranogwyr asesiad cyhoeddedig Ofcom o berfformiad y grŵp dawns stryd Prydeinig, Diversity, o drefn a ysbrydolwyd gan y mudiad gwleidyddol Black Lives Matter ar Britain's Got Talent, ITV ar 5 Medi 2020.